| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **22 TACHWEDD 2012** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2012/13 –<br>ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2012)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **DERBYN YR WYBODAETH, YSTYRIED RISGIAU SY'N DEILLIO O'R TAFLUNIADAU GWARIANT AC INCWM YN ERBYN Y GYLLIDEB, A CHRAFFU PENDERFYNIADAU'R CABINET YNG NGHYSWLLT RHEOLI CYLLIDEBAU'R CYNGOR A'I ADRANNAU.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn sgil rhai o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Cyngor wedi newid o "drefniadau amgen", sef Bwrdd y Cyngor, i "drefniadau gweithrediaeth" sef Cabinet, ers Mai 2012.

**2.** Mae'r Mesur hefyd wedi newid pwyslais y Pwyllgor Archwilio i graffu rhai materion ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Prif Bwyllgor Craffu, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb chwarterol ac adroddiadau rheolaeth trysorlys (ar fuddsoddi a benthyg).

**3.** Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi treialu'r dull hwn o weithredu yn y flwyddyn 2011/12, ac yn yr un modd, cyflwynir yr eitem hon a'r 2 eitem ganlynol fel eitemau "Cyllid" o'r fath newydd, yn hytrach nac eitemau "Archwilio" traddodiadol.

**4.** Cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 24 Gorffennaf 2012. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2012/13.

**5.** Felly, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 20 Tachwedd o'r Cabinet.

**6.** Erbyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu cyfarfod Cabinet 20 Tachwedd fel arsyllwyr, a bwriedir cyflwyno penderfyniadau drafft y Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" ar 22 Tachwedd.

**7. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet (cyflwynir "ar y bwrdd" ar 22 Tachwedd), a sylwebu fel bo angen.**